Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Trydydd adroddiad ar ddeg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mehefin 2024

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Trydydd adroddiad ar ddeg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mehefin 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS ***
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS**
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

* Ni chymerodd ran yn yr ystyriaethau o'r gŵyn

---

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Argymhelliad** .......... **5**

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

**2. Ystyried y gŵyn** .......... **7**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor** .......... **8**

Penderfyniad y Pwyllgor .......... 8

Argymhelliad y Pwyllgor .......... 9

**4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon** .......... **10**

**Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau (Saesneg yn unig)** .......... **11**

# Argymhelliad

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 8.22(a) o'r Weithdrefn, bod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ac y dylai'r Aelod gael ei geryddu o dan Reol Sefydlog 22.10(i). .......... Tudalen 9

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd[3] ("y Weithdrefn") ac mae'n ymwneud â chŵyn yn erbyn Mick Antoniw AS.

**3.** Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd") ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion am y gŵyn a chasgliadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

**4.** Fel yr Achwynydd yn y mater hwn, gwnaeth Natasha Asghar AS esgusodi ei hun o'r broses o ystyried y gŵyn. Ystyriodd Sam Rowlands AS y gŵyn yn ei lle fel ei dirprwy enwebedig o dan Reol Sefydlog 22.5.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**6.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

---

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**7.** Daeth cwyn i law'r Comisiynydd mewn perthynas â thrydariad a bostiwyd gan Mick Antoniw AS. Roedd y trydariad yn nodi: "Tories so happy to see people and particularly children killed and injured on our roads. Wholly irresponsible but not surprising.". Roedd y Comisiynydd o'r farn bod y trydariad yn sarhaus. Cydnabu a derbyniodd yr Aelod yr asesiad hwn pan gysylltodd y Comisiynydd ag ef.

**8.** Roedd yr Achwynydd o'r farn bod y trydariad hwn yn hollol amhriodol, yn dramgwyddus iawn ac yn gwbl ddiangen, a'i fod yn mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad[4], yn enwedig rheolau dau a thri.

**9.** Nododd y Comisiynydd y rheolau y cyfeiriodd yr achwynydd atynt. Yn ei asesiad o'r gŵyn, ystyriodd y rheolau a ganlyn o'r Cod Ymddygiad fel y rhai mwyaf perthnasol:

- Rheol 1 – Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol.
- Rheol 3 – Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol.
- Rheol 6 – Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.

**10.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 3 Mehefin 2024 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

[4] Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**11.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).[5]

**12.** Wrth ystyried a dorrwyd rheolau, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**13.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau llafar i'r Pwyllgor.

## Penderfyniad y Pwyllgor

**14.** Nododd y Pwyllgor ganfyddiad y Comisiynydd fod Mick Antoniw AS wedi derbyn bod hyn yn mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

**15.** Nododd y Pwyllgor y camau a gymerwyd gan Mick Antoniw AS i unioni'r sefyllfa, a oedd yn cynnwys ymddiheuro'n gyhoeddus a dileu'r trydariad.

**16.** Nododd y Pwyllgor sylwadau'r Comisiynydd ynghylch pam yr oedd o'r farn na ellid ymdrin â hyn o dan y weithdrefn gywiro. Cytunodd y Pwyllgor â barn y Comisiynydd sef, er gwaethaf y ffaith i Mick Antoniw AS ymddiheuro a dileu'r trydariad, nad oedd y camymddwyn yn fethiant o natur fechan ac felly ni ellid ymdrin ag ef o dan y weithdrefn gywiro.

**17.** Mae'r Comisiynydd yn nodi yn ei adroddiad:

> *"…Offensive comments of that kind about a large section of the electorate are not only offensive but could bring the Senedd into disrepute. In making them the Member, who is a senior politician, set a very poor example, and demonstrated a lack of judgement and leadership…"*

**18.** Cytunodd y Pwyllgor â disgrifiad y Comisiynydd o'r sylwadau a'u goblygiadau.

**19.** Nododd y Pwyllgor faint o amser y cymerodd swyddfa'r Comisiynydd i weithredu mewn perthynas â'r gŵyn hon, a'r rhesymau a nodwyd gan y Comisiynydd dros yr oedi. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai hyn fod wedi achosi trallod i'r Aelod dan sylw a'r achwynydd.

**20.** Ar ôl ystyried canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiynydd, a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd, cytunodd y Pwyllgor â chanfyddiad y Comisiynydd y bu achos o fynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

[5] Rheol Sefydlog 22.2(i)

Mae'r Pwyllgor yn canfod bod Mick Antoniw AS wedi torri Rheolau un, tri a phump o'r Cod Ymddygiad.

## Argymhelliad y Pwyllgor

**21.** Mae achos o dorri'r Cod Ymddygiad gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Senedd Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweiniad drwy eu gweithredoedd.

**22.** Mae defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn fwyfwy cyffredin ymhlith cynrychiolwyr etholedig ac yn ddull pwysig o gyfathrebu a dadlau. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno heriau i'r Aelodau, o ystyried natur y rhyngweithio a'r potensial i'w camddefnyddio. Dylai aelodau wneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn parhau i ymgorffori'r egwyddorion arweinyddiaeth wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

**23.** Wrth ddod i'w benderfyniad, cymerodd y Pwyllgor i ystyriaeth y ffaith bod yr Aelod dan sylw wedi ymddiheuro a dileu'r trydariad sarhaus. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried cynnwys y trydariad a'r effaith bosibl y gallai fod wedi'i chael ar nifer o bobl.

**24.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Aelod wedi gweithredu'n brydlon, ac wedi cymryd y camau angenrheidiol, i unioni'r mater hwn. Fodd bynnag, o ystyried y disgrifiad difrïol o garfan o etholwyr, cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn cyfiawnhau cerydd yn hytrach na dim camau pellach yn seiliedig ar gamau unioni prydlon yr Aelod.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 8.22(a) o'r Weithdrefn, bod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ac y dylai'r Aelod gael ei geryddu o dan Reol Sefydlog 22.10(i).

# 4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon

**25.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r amser a gymerwyd i'r gŵyn hon gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor gan y Comisiynydd. Dyma’r tro cyntaf i oedi o’r fath ddigwydd ac mae’r Pwyllgor yn nodi’r mesurau a roddwyd ar waith gan swyddfa’r Comisiynydd i sicrhau na fyddai oedi o’r fath yn digwydd eto.

**26.** Dyma’r pedwerydd adroddiad sylweddol yn y Senedd hon sy’n gysylltiedig â’r cyfryngau cymdeithasol. Hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw'r Aelodau at bwysigrwydd trin rhyngweithiadau ar gyfryngau cymdeithasol yn unol â'r un egwyddorion a fyddai'n cael eu cymhwyso ar gyfer rhyngweithio wyneb yn wyneb, ac atgoffa'r Aelodau bod cymorth ar gael i Aelodau o ran ymdrin â’r cyfryngau cymdeithasol a'u defnyddio'n gywir ac mewn ffordd barchus.

**27.** Mae’r Pwyllgor o’r farn ei bod yn bwysig ein bod ni fel gwleidyddion yn cydnabod yr angen i ymgorffori parch yn ein rhyngweithiadau er mwyn sicrhau bod y drafodaeth ehangach am wleidyddiaeth a gwleidyddion yn adlewyrchu hyn. Mae’n bosibl herio’r rhai sydd â safbwyntiau gwrthgyferbyniol yn gadarn heb fod yn sarhaus, a thrwy wneud hyn gall Aelodau o’r Senedd osod esiampl o sut y gellir gwella sgyrsiau a rhyngweithiadau o’r fath.

# Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau (Saesneg yn unig)

**REPORT**

**by**

**SENEDD COMMISSIONER FOR STANDARDS**

**of the investigation of a complaint against**

**MICK ANTONIW MS**

## 1. INTRODUCTION

1.1 This is the report of my investigation of a complaint by Natasha Asghar MS ("the Complainant") against Mick Antoniw MS ("the Member").
The documents I have relied upon in compiling this report are at the Appendix. Footnote references to them are provided where appropriate.

## 2. THE INVESTIGATION

2.1 On 18 September 2023 the Complainant submitted her complaint about the conduct of Member.[1] The following day she provided me with supporting evidence.[2] I copied the complaint and evidence to the Member, informed him that I was undertaking a preliminary investigation to inform my decision on the admissibility of the complaint and allowed him seven days to submit written representations in that regard. On 27 September, in the absence of any representations from the Member, whom it appears had not received my letter of 19 September, I informed the Complainant of my decision that the complaint was admissible and that I had started my formal investigation of it. I also informed the Member and posed a number of questions to him. On 4 October the Member provided written answers to these questions.[3] Having considered these answers, I informed both parties that no further investigation was required and that I would draft my report.

2.2 On 6 October I provide both parties with a copy of my draft report and afforded them seven days within which to submit written corrections or representations regarding my findings of fact. The Complainant did not avail of that opportunity. In his response of 10 October, the Member accepted the findings and my opinion. He explained that the reference in his letter of 4 October to 'Welsh Conservatives' was intended to be to Welsh Conservative politicians rather than all Welsh Conservatives.[4]

---

[1] Document 1
[2] Document 2
[3] Document 3
[4] Document 5

## 3. FACTS ESTABLISHED

3.1 I was satisfied that the following facts had been established –

i. On 16 September 2023 the Member posted on his X account *"Tories so happy to see people and particularly children killed and injured on our roads. Wholly irresponsible but not surprising."*
ii. The Member has admitted that the post was offensive and breached Rules 1 and 6 of the Code of Conduct.
iii. When the Member realised that the post was inappropriate, he caused it to be deleted and issued an apology for his conduct.[5]

## 4. CONSIDERATION

4.1 The Member has admitted that his conduct was a breach of Rule 1 (the Respect and Leadership Principles) and Rule 6 of the Code of Conduct. He has apologised for his error to my satisfaction. He took down the post on and issued an apology through the media.

4.2 In view of the remedial action taken by the Member I considered whether I could recommend to the Committee that the matter be dealt with in accordance with paragraph 7.6 of the Procedure for Dealing with Complaints against Members of the Senedd. I conclude that I could not. That paragraph applies only to breaches of *"a minor nature."* I did not consider that the Member's conduct could properly be regarded as a minor failure to comply with the Code of Conduct.

4.3 The Member has told that by his *"usage of the term 'happy' I intended to mean the Welsh Conservatives generically (it was not directed at any individual) were content to oppose a policy which had the objective of saving lives. I did not use 'happy' in the sense that anyone would be personally take pleasure from seeing children injured or killed on our roads."* Members must take care in the way they express themselves. I have no doubt that those reading the post would have formed from it the impression

[5] Document 4

that the Member believed that Conservatives in general were happy to see people and children killed on the roads.

4.4 I agree with the Member that his post was offensive and was a breach of the Integrity and Leadership Principles of Rule 1 and of Rule 6 (Respect) of the Code of Conduct. I note that it was directed at all Conservatives not just Conservative politicians who opposed the change to the default speed limit. Offensive comments of that kind about a large section of the electorate are not only offensive but could bring the Senedd into disrepute. In making them the Member, who is a senior politician, set a very poor example, and demonstrated a lack of judgement and leadership. It follows from his admitted breach of the Integrity Principle that the Member has also breached Rule 3 of the Code (Bringing Senedd into disrepute).

4.5 The post was made when there were ongoing, sometimes intemperate, exchanges between supporters and opponents of the then new default 20mph speed limit on restricted roads. The post was made in response to one by Andrew R T Davies MS which included an image of a newspaper front page in which the speed limit was described as *"insane."*

*4.6 Whilst* I note the Member's explanation that what he posted was intended to relate to Welsh Conservative politicians, a member of the public reading the post would have no reason to interpret what he said in that limited way. The obvious interpretation of it was that it was about all 'Tories'. It is very likely that any Conservative elector would have found it offensive.

4.7 It is to the Member's credit that as soon as he realised his error, he took steps to mitigate it by having the post deleted and apologising for it. He has also co-operated fully with my consideration of the complaint.

## 5. OPINION

I am satisfied that the conduct of the Member amounted to a breach of Rules 1, 3 and 6 of the Code of Conduct.

**DOUGLAS BAIN CBE TD**

Senedd Commissioner for Standards
20 May 2024

Appendix

## Documents relied upon

1. Complaint
2. Supporting evidence
3. Letter Member – Commissioner 4 October 2023
4. Letter Member – Commissioner 6 October 2023
5. Letter Member – Commissioner 10 October 2023